Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## CYFLE: Galwad Agored Neges@Home

Mae Neges@Home gan Menter Môn yn anelu i gyflenwi bwyd a diod lleol i'r rhai sy'n aros mewn llety hunanarlwyo. Mae'r prosiect yn chwilio am gyflenwyr bwyd a diod lleol sydd â diddordeb datblygu pecynnau ar gyfer ymwelwyr i'r ardal, ac maent hefyd yn awyddus i gyd-weithio gyda darparwyr llety hunanarlwyo.

Cysylltwch â: rhys@mentermon.com neu ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/negeshome/

# GWOBRAU: Gwobrau Busnes Daily Post/North Wales Live 2021

Bydd Gwobrau Busnes Daily Post/North Wales Live yn ôl ar gyfer 2021, a byddant yn cael eu cynnal ar 15 Rhagfyr 2021 ym Mhrifysgol Bangor. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau yw hanner nos ar 14 Tachwedd 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://reachplcevents.com/events/northwestandnorthwales/daily-post-business-awards/

# TECH: Gofod gwneud Ffiws Porthmadog

Mae gofod gwneud Ffiws yn cynnig mynediad i ystod o offer modern. Gall busnesau elwa o becyn cymorth gan gynnwys amser ychwanegol gyda thechnegydd i ddysgu sut i wneud y mwyaf o'r offer a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/pecyn-cymorth-ffiws/

Mae amserlen mis Tachwedd Ffiws ar gael. I gael gweld yr holl ddigwyddiadau sydd ar gael, ac i archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3kgNHiU

# DIGWYDDIAD: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad 3 Rhagfyr 2021

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn comisiynu'r gwaith o gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf dros y blynyddoedd nesaf, ac yn cynnal Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad ar Zoom ar 3 Rhagfyr 2021, o 10:00am-12:30pm. Bydd yna gyflwyniad i'r Cynllun Twf a thrafodaeth am y cyfleoedd fydd yn deillio ohono fo. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3kfxvOE

# CYLLID: Be Nesa Llŷn – benthyciadau di-log

Wedi'i sefydlu gan entrepreneuriaid lleol a'i weinyddu gan Arloesi Gwynedd Wledig, mae Be Nesa Llŷn yn darparu benthyciadau di-log i bobl ifanc yn Llŷn i ddatblygu busnesau newydd. Maent yn derbyn ceisiadau ar gyfer benthyciadau o hyd at £5,000 ar hyn o bryd.

Cysylltwch â: betsan@mentermon.com

Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/be-nesa-llyn/

# CYFLE: Siop Pop-Up Blaenau Ffestiniog

Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn treialu siop 'pop-up' bob pythefnos yng Nghanolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog i helpu busnesau bach lleol werthu eu cynnyrch, gyda'r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal ar 12 Tachwedd 2021, o 2:00pm-7:00pm.

Cysylltwch â: betsan@mentermon.com am fwy o wybodaeth.

I wylio fideo am y prosiect, ewch i:

https://www.youtube.com/watch?v=n0_R8NLlcuE

# CYLLID: Cronfa Benthyciad Adfer i elusennau a mentrau cymdeithasol

Mae'r Gronfa Benthyciad Adfer yn cymryd lle'r Gronfa Benthyciad Cadernid ac Adfer ac yn ceisio helpu sefydliadau sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19. Gall elusennau a mentrau cymdeithasol sydd wedi bod yn gweithredu ers o leiaf ddwy flynedd wneud cais am fenthyciadau gwerth hyd at £1.5 miliwn. Y

dyddiad cau ydi 21 Tachwedd 2021. Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i:

https://www.sibgroup.org.uk/recovery-loan-fund

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru